



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 20 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae Confensiwn Minamata ("y Confensiwn") ar fercwri, y mae'r DU yn rhan ohono, yn gytuniad gan y Cenhedloedd Unedig sy'n bwriadu diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd rhag effeithiau negyddol dod i gysylltiad â mercwri. Nod y Confensiwn yw cyflawni hyn drwy gymryd camau byd-eang i gyfyngu ar faint o fercwri sy'n cael ei ryddhau a'i allyrru ar draws ei gylch oes. Mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar gyflenwi a masnachu mercwri elfennaidd; ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar fercwri yn raddol o sawl cynnyrch a phroses; gwahardd cloddio ar raddfa fach am aur gyda mercwri; a gosod mesurau ar ddulliau storio mercwri pan gaiff ei ddefnyddio mewn prosesau diwydiannol a sut i'w reoli pan ddaw'n wastraff.

Er mwyn galluogi'r DU a'r Aelod-wladwriaethau eraill i ymrwymo i'r Confensiwn, mabwysiadodd yr UE a'i Aelod-wladwriaethau Reoliad (EU) 2017/852 ar fercwri, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018. Mae Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn diddymu'r ddeddfwriaeth bresennol ar fercwri ac yn llenwi bylchau deddfwriaethol. Er ei fod yn bennaf yn gweithredu'r ymrwymadau yng Nghonfensiwn Minamata, mae Rheoliad yr UE yn mynd ymhellach mewn sawl maes, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio amalgam deintyddol ac allforio mercwri.

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys a ddiwygir gan Reoliadau 2020

- Rheoliad (EU) 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri a diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1102/2008

Is-ddeddfwriaeth a ddiwygir

- Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017

- Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Is-ddeddfwriaeth a ddi-rymir

- Mae Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi'u dirymu.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O dan Rheoliadau 2019, trosglwyddir swyddogaethau Comisiwn yr UE i Weinidogion ar gyfer meysydd o fewn cymhwysedd. Fel arall, mae Rheoliadau 2020 yn darparu ar gyfer y swyddogaethau hyn i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru yn unig.

Mae gan effaith y swyddogaethau cydamserol a geir yn yr Offeryn Statudol hwn botensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly gallant gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Mae offeryn statudol a wneir dan y weithdrefn gadarnhaol yn mynd i'r afael â gwendidau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir rhag gweithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud sawl cywiriad i gyfraith yr UE a ddargedwir, sy'n ymwneud â swyddogaethau deddfwriaethol. Maent yn angenrheidiol i ddiogelu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r meysydd a nodir uchod ac isod. Maent hefyd yn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE yn parhau i weithio ar draws y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n cyfuno newidiadau i swyddogaethau deddfwriaethol sy'n defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau i fynd i'r afael â diffygion yn y ddeddfwriaeth i alluogi'r ddeddfwriaeth i weithio ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae Rheoliadau 2020 yn newid pwy yw'r cyrff sy'n cyflawni'r swyddogaethau penodedig o natur ddeddfwriaethol. Maent hefyd yn trosi gweithdrefnau'r UE i weithdrefnau Prydain Fawr, fel y bo'n briodol, yn yr un ffordd a gyflawnwyd hyn yn flaenorol gan reoliadau 2019 y maent yn eu disodli, ond dim ond mewn perthynas â Phrydain Fawr y tro hwn.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio:

Er mwyn galluogi'r DU a'r Aelod-wladwriaethau eraill i ymrwymo i'r Confensiwn, mabwysiadodd yr UE a'i Aelod-wladwriaethau Reoliad (EU) 2017/852 ar fercwri, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018. Mae Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn diddymu'r deddfwriaeth bresennol ar fercwri ac yn llenwi bylchau deddfwriaethol. Er ei fod yn bennaf yn gweithredu'r ymrwymadau yng Nghonfensiwn Minamata, mae Rheoliad yr UE yn mynd ymhellach mewn sawl maes, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio amalgam deintyddol ac allforio mercwri.

Mae Rheoliad (EU) 2017/682 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri yn sefydlu mesurau ac amodau yn ymwneud â:

- defnyddio, storio a masnachu mercwri, cyfansoddion mercwri a chymysgeddau mercwri;
- gweithgynhyrchu, defnyddio a masnachu cynhyrchion y mae mercwri wedi'i ychwanegu atynt;
- rheoli gwastraff mercwri er mwyn diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd ar lefel uchel rhag allyriadau anthropogenig; a
- mercwri a chyfansoddion mercwri sy'n cael eu rhyddhau.

Mae pŵer gan y Comisiwn i bennu ffurfiau i'w defnyddio ar gyfer cyfyngiadau allforio a mewnforio; gosod gofynion technegol ar gyfer storio mercwri, cyfansoddion mercwri a chymysgeddau mercwri dros dro mewn ffordd amgylcheddol ddiogel; ehangu'r cyfnod a ganiateir ar gyfer storio gwastraff mercwri dros dro; a diwygio Atodiadau 1 i 4 i'r Rheoliad yn unol â'r cytundebau rhyngwladol. Mae'r offeryn yn caniatáu i'r swyddogaethau hyn gael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban i'w harfer yn eu hardaloedd priodol. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaethau ar ran Gweinyddiaeth Ddatganoledig gyda'i gydsyniad.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau i'w gweld yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213188>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl ymadawiad y DU â'r UE.

